# Cofnodion o gyfarfod Cyngor Cymuned Henfynyw ar yr 18fed o Fai 2022 yn Neuadd Goffa Llwyncelyn am 7.30 yh

**Cyfarfod Blynyddol:**

**Cofnodion:** Darllenwyd cofnodion Mis Mai 2021 gan y Cadeirydd a phaswyd eu bod yn gywir.

Cyn dechrau'r cyfarfod gwnaeth y Cadeirydd longyfarch ein Cynghorydd Sirol Marc Davies ar ei lwyddiant yn ail ennill ei sedd fel Cynghorydd Sirol.

**Cyfarfod Misol:**
**Presennol:**
Y Cynghorwyr Eiddwen Merritt (Cadair), Wyn Evans,
Gerallt Davies, Carys Morgan a Ruby Williams.

**Hefyd yn bresennol:**
Ein Cynghorydd Sirol Marc Davies a'r Clerc.

**Ymddiheuriadau:**
Cynghorwyr Garym Roberts, Jocelyn Andrew a
Wyn Jones.

**Datgelu buddiannau:**
Yn cael eu parchu.

**Cofnodion:**
Darllenwyd cofnodion Mis Ebrill a'u cafwyd yn gywir.

**Codi o'r cofnodion:**

i. Roedd ein Cynghorydd Sirol Marc Davies wedi trafod gyda aelod o staff Cyngor Ceredigion, Simon Bray ynglyn a rhoi golau ychwanegol yn Nerwen Gam, dywedodd ei fod yn mynd i gostio hyd at £2000 a fydde rhaid iddo fod o safon dderbyniol gyda'r Cyngor cyn iddynt ei fabwysiadu. Penderfynwyd i'r clerc ddanfon ebost pellach i Arwyn a Heledd Williams.

**Mater cynllunio:**
Rhif Cais A220245.
1 Penrhynbach,m Ciliau Aeron, Llambed SA48 8DQ
Estyniad un llawr i'r cefn gyda balconi.
Dim gwrthwynebiad.

**Yswiriant y Cyngor:**
Eleni penderfynwyd cael dyfyniad arall am yswiriant i'r Cyngor Cymuned, derbynwyd dyfyniad oddiwrth Zurich Municipal oedd yn £241.00 gyda amserlen polisi oedd yr un peth a phenderfynwyd i ddewis y rhain eleni.

**Adnewyddu ICO:**
Y ffi eleni yw £40.

**Ymddiswyddiad Cynghorydd:**
Gyda chalon drom cafwyd y newyddion fod ein Cynghorydd Barry Owen yn ymddiswyddo o'r Cyngor ar ol blynyddoedd lawer o fod yn ran o'r Cyngor Cymuned. Gofynwyd i'r clerc ysgrifennu llythyr o ddiolch am ei rôl bwysig a'i gyfraniad i fod yn aelod gwerthfawr o'r Cyngor.
Penderfynwyd i hysbysebu am Gynghorydd newydd gan amlinellu fod y cyfarfodydd yn cael eu cynnal yn y Gymraeg ond y byddau cyfieithydd ar gael os y wnewn gyfethol Gynghorydd ddi-Gymraeg.

**Unrhyw fater arall:**
Dywedodd ein Cynghorydd Sirol Marc Davies ei fod yn cwrdd ag Elin Jones AM a Ben Lake AS ar y 27ain o Fai ac yn mynd i drafod symud y safle bws o ger Eglwys Henfynyw i'r gilfan yn groes y ffordd i ddiogelu yr henoed, plant a'r bobol anabl sy'n ei ddefnyddio yn rheolaidd a'u harbed rhag orfod croesi'r gefnffordd.

Daeth y cyfarfod i ben am 8.30.

Fe fydd y cyfarfod nesaf ar Nos Fercher y 8fed o Fehefin.